# Oes Aur Cymry Middlesbrough a'r Cyffiniau gan D. Ben Rees

Un o'r bylchau pennaf yn ein hanes fel Cymry ydyw hanes y cymunedau a oedd ar wasgar yng Ngogledd Lloegr, fel Cymry Stockton on Tees, Witton Park, Workington, Barrow in Furness, Dalton in Furness, Millom, Spennymoor, Sunderland, Whitehaven ac Easington heb anghofio Middlesbrough. Yr oedd rhesymau gwahanol dros ymfudiad y Cymry i'r canolfannau hyn, ac yn hanes Middlesbrough, y gweithiau haearn oedd yr atyniad. Daeth y mwyafrif o'r Cymry o Dde Cymru ac enghraifft dda i brofi'r pwynt oedd prif ddyn Cymry Middlesbrough yn yr oes aur, y diwydiannwr a'r gwleidydd Edward Thomas John (1857-1931). Un o Bontypridd ydoedd a bu yn gysylltiedig â Middlesbrough am gyfnod hir.

Yr oedd ysbryd anturiaethus yn perthyn i E. T. John. Prynodd, gyda chyfaill, waith haearn Dinsdale, ac wedyn ymunodd y cwmni â chwmni Bolckow Vaughan yn Linthorpe i ffurfio LINTHORPE-DINSDALE SMELTING COMPANY. Ond cyfraniad pwysig E. T. John oedd fel arweinydd y Cymry yn Middlesbrough ac fel lladmerydd y mudiad o blaid Senedd i Gymru.

Yn nhref Middlesbrough bu yn ffyddlon iawn i Gapel Cymraeg y Methodistiaid Calfinaidd. Dechreuwyd cynnal gwasanaeth crefyddol Cymraeg mewn ystafell fechan yn Lithgow Yard, Lower East Street. Yr oedd hynny rhwng 1855 a 1868. Yn y flwyddyn honno symudwyd i un o ystafelloedd yr Oddfellows Hall, ac yna ym 1876 adeiladwyd capel i'r Cymry yn Boundary Road. Gwerthwyd y capel hwn ym 1900, a chafwyd capel newydd yn Southfield Road yn y flwyddyn 1904. Yr oedd hwn yn gapel hardd ac E. T. John yn benderfynol mai felly a byddai hi. Trwy ymdrechion arbennig, cliriwyd y ddyled i gyd (£1,450) erbyn Hydref 1906.

Etholwyd E. T. John a David Thomas yn flaenoriaid yn y flwyddyn 1889. Cafwyd etholiad arall ym 1895 pan etholwyd y Dr J. W. Edwards a J. W. Lewis. Cyfrifid yr adeg honno bod oddeutu tair mil o Gymry Cymraeg yn y ddinas, ac fel ymhob cymuned arall, collwyd cannoedd ohonynt i'r bywyd Cymraeg.

Ond yn y cyfnod hwn, dyweder o 1890 i 1920, cafwyd mudiadau i warchod yr etifeddiaeth Gymraeg heblaw'r Capeli: sefydlwyd yn y lle cyntaf yr hyn a elwid **Cleveland and Durham Welsh National Society**. Ffurfiwyd y Gymdeithas hon ym mis Tachwedd 1895. Amcanion y Gymdeithas oedd:

i) hybu yr astudiaeth o iaith, llenyddiaeth, hanes, cerddoriaeth a'r celfyddydau yng Nghymru.

ii) i fagu ymwybyddiaeth o Gymreictod ymhlith yr aelodau ac i hybu holl fudiadau cenedlaethol Cymru.

iii) i roddi cyfle i gymdeithasu i'r Cymry a eraill a oedd yn trigo yn yr ardaloedd hyn.

Llywydd cyntaf y Gymdeithas oedd Syr John Rhŷs o Goleg yr Iesu, Rhydychen, ac fe'i dilynwyd gan Gymry amlwg, Syr Lewis Morris, T. E. Ellis AS, Elfed, a'r Athro T. Witton Davies, Bangor a chynnyrch ardal Witton Park.

Llwyddodd y Gymdeithas hon mewn tri pheth. Yn gyntaf i ddenu Cymry amlwg i ddarlithio. Gwelais mewn cofnodion enwau y canlynol; Y Dr A. Emrys Jones, Manceinion, meddyg a ffrind mawr R. J. Derfel, y ddau yn arloeswyr y mudiad Sosialaidd. Darlithiodd y Dr Emrys Jones ar fywyd a Gwaith Edward Williams (Iolo Morganwg). Daeth yr Athro Edward Anwyl o Aberystwyth i ddarlithio. Meddai ef fel cynnyrch



*Syr John Rhŷs – Llywydd cyntaf y Gymdeithas.*

bywyd Cymraeg Caer gryn ddiddordeb yng Nghymry Middlesbrough a Cleveland. Rhoddodd yr ysgolhaig gwych hwn, fel y galwodd Syr T. H. Parry-Williams ef, ddarlith ar y Mabinogion. Teithiodd yr Athro Ellis Edwards o Goleg y Bala i ddarlithio ar destun reit agored, Miwsig ym myd Natur. Nid darlithiau yn unig a gafwyd ond cyngherddau a phenllanw'r cyfan, dathlu Gŵyl Ddewi. Dyma'r ail gyfraniad pwysig. Yr ydym ni fel alltudion yn rhoddi pwys mawr ar gyfarfodydd Gŵyl Ddewi. Felly yr oedd hi yn Cleveland a Durham. Swyddogion y Gymdeithas am flynyddoedd oedd yr anfarwol E. T. John yn Gadeirydd gyda E. W. Jones yn Drysorydd a Louis Williams, 37 Marton Road, Middlesbrough yn Ysgrifennydd. Diddorol sylwi mai pobol Middlesbrough oedd y swyddogion er fod y Gymdeithas yn cynnwys yn y teitl Cleveland a Durham.

Yn drydydd rhaid canolbwyntio ar fudiad pwysig arall yn Middlesbrough sef y mudiad eisteddfodol. Cychwynnwyd yr arfer o gynnal eisteddfod flynyddol ar Ddydd Calan (1 Ionawr) 1884 yng nghapel Cymraeg Boundary Road. Symudwyd hon ddwy flynedd yn ddiweddarach i Neuadd Cleveland. Llwyddodd E. T. John i gael gwleidyddion yn Llywyddion ar yr Eisteddfod. Y mae'r gwleidyddion hyn erbyn hyn yn gwbl anghofiedig fel Syr Horace Davey (a ddaeth yn Arglwydd Davey), Syr Joseph W. Pease AS, Henry Fell Pease AS, Thomas Wrightson AS a Jonathan Samuel AS. Erbyn 1890 yr oedd yr Eisteddfod wedi dod yn atyniad pwysig a dyna'r flwyddyn y galwyd Eisteddfod Middlesbrough yn Eisteddfod Cleveland a Durham. Llywyddwyd y pnawn hwnnw gan Marquis of Londonderry.

Diddorol yw sylwi ar y rhestr o feirniaid a ddeuai i'r Eisteddfod hon fel David Jenkins, Athro Cerddoriaeth Coleg y Brifysgol yn Aberystwyth ac o Lerpwl, C. Frances Lloyd, mab y cyfansoddwr Ambrose Lloyd. Yr oedd ganddo ef radd o Rydychen. Felly hefyd Rowland Rogers. Estynid gwahoddiad i D. Emlyn Evans a J. T. Rees i feirniadu hefyd.

Rhoddid pwyslais ar yr ochr lenyddol i'r Eisteddfod a chynigid gwobrau sylweddol am draethodau ar Owain Glyndŵr, John Penry a Ceiriog. I ble tybed yr aeth y traethodau a anfonwyd ar y testun, **Notable North-Country Welshmen**. Dylent fod ym mhlith archifau y Llyfrgell Genedlaethol. Hyd Eisteddfod 1895 cyflwynid yr elw i Gapel Cymraeg Middlesbrough, ond yn y flwyddyn honno daeth yr Eisteddfod o dan arolygaeth Cymdeithas Cleveland and Durham Welsh National Society. Yr oedd yr Eisteddfod wedi tyfu a cheid cynulleidfa gref. Nodwyd fod cynulleidfa'r hwyr yn Eisteddfod 1896 dros bymtheg cant mewn rhif. Daeth dwy fil i Eisteddfod olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Bu'r Eisteddfod yn ei blynyddoedd cynnar yn ffodus iawn o gael W. J. Davies yn Ysgrifennydd. Bu wrth y gwaith hwn am un mlynedd ar ddeg, ac etholwyd ef yn 1902 yn flaenor yn y Capel Cymraeg. Dilynwyd ef yn y swydd gan B. J. Bowen, Grange Road, a meddai ef ar ddigon o frwdfrydedd. Yr oedd W. J. Davies yn meddu ar gryn dipyn o ddoniau. Cymerai ddiddordeb mewn llenyddiaeth Gymraeg a gofalai fod llyfrau a chylchgronau Cymraeg yn cael eu gwerthu a'u dosbarthu ymhlith ei gyd-Gymry. Bu yn Arweinydd yr Eisteddfod am flynyddoedd lawer. Cychwynnodd ar y dasg honno yn 1892 a pharhaodd am o leiaf bymtheg mlynedd. Meddai ar huawdledd ar y llwyfan.

Bu presenoldeb gweinidogion llawn amser ar y capel Cymraeg Presbyteraidd yn atgyfnerthiad parhaol i'r gymdeithas Gymraeg. Ni fu'r Capel Presbyteraidd yn fawr o ran rhif. Yr oedd aelodaeth Middlesbrough yn nyddiau y Parchedig John Lewis yn 42, ac erbyn 1930 yn ddim ond 55, ac ym 1899 ymgymerodd y Parchedig D. L. Owen â'r gwaith, a bu ef farw yn Middlesbrough. Ar ei ôl ef, bu chwech o weinidogion Cymraeg yn Middlesbrough, sef William Glynne BA, David Thomas, R. Pryce Jones BA, E. Ll Lewis MA, Edward Evans a D. W. Bundred. Disgwylid iddynt fod yn amlwg yn y gweithgareddau Cymraeg a hefyd gynnal cyfarfodydd Cymraeg mewn amryw o ganolfannau yn y cylch – er enghraifft, Grangetown a West Hartlepool. Rhaid cofio fod dylanwad E. T. John yn treiddio i'r dinasoedd o amgylch Middlesbrough fel Stockton on Tees. Daeth y Cymry i weithio yno yn y gweithiau haearn a chyfrifid ar un adeg fod mwy o Gymry yn Stockton on Tees nag oedd yn Middlesbrough.

Peidiodd y gweithgarwch trwy gyfrwng y Gymraeg yn y rhan yma o Cleveland, er fod yr ysbryd eisteddfodol yn dal yn fyw hyd yn ddiweddar iawn.

*Y mae'r ysgrif hon yn deyrnged i genhedlaeth E. T. John a W. J. Davies a B. J. Bowen.*